

Crynodeb gweithredol

Y rhesymeg dros y polisi

Bu system o gyfrifoldeb cynhyrchwyr dros ddeunydd pacio ar waith gennym ers 1997. Mae hyn wedi helpu i gynyddu canran y gwastraff deunydd pacio sy'n cael ei ailgylchu o 25%, 20 mlynedd yn ôl, i 64.7% yn 2016. Dros y cyfnod hwn rydym wedi cyflawni holl dargedau'r DU a'r UE ar gyfer ailgylchu deunydd pacio a llwyddwyd i gadw cost cydymffurfio i fusnesau yn isel o gymharu ag Aelod-wladwriaethau eraill. Fodd bynnag, fel unrhyw system sydd dros 20 mlwydd oed, mae angen ei diwygio. Mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch tryloywder y system gan gynnwys y ffordd y mae incwm o werthu tystiolaeth wedi helpu i ariannu gweithgarwch ailgylchu gwastraff deunydd pacio, nad yw awdurdodau lleol yn cael fawr ddim cymorth ariannol uniongyrchol ar gyfer rheoli gwastraff deunydd pacio ac nad yw gweithgarwch ailbroseu domestig yn cael yr un chwarae teg.

At hynny, mae Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn ymrwymedig i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl am ein hadnoddau a lleihau gwastraff drwy'r defnydd cylchol o ddeunyddiau. Mewn nifer o ddogfennau polisi mae ymrwymadau wedi'u gwneud i ystyried ffyrdd gwell o gymell cynhyrchwyr i reoli adnoddau yn fwy effeithlon. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyfrifoldeb ar fusnesau am effaith amgylcheddol eu cynhyrchion a'r costau net llawn sy'n gysylltiedig â rheoli cynhyrchion ar ddiwedd eu hoes.

Mae ein huchelgeisiau wedi cynyddu hefyd ac yn ystod y misoedd diwethaf rydym wedi gweld cynnydd yn ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r angen i fynd i'r afael â gwastraff deunydd pacio. Rydym am weld deunydd pacio diangen a deunydd pacio sy'n anodd ei ailgylchu yn lleihau'n sylweddol, rydym am weld mwy o ddeunydd pacio yn cael ei ddylunio i fod yn ailgylchadwy, rydym am weld mwy o ddeunydd pacio yn cael ei ailgylchu ac rydym am weld mwy o ddeunydd pacio yn cael ei wneud o ddeunydd wedi'i ailgylchu. Rydym hefyd am weld llai o eitemau o ddeunydd pacio yn cael eu taflu fel sbwriel ac rydym am iddi fod yn haws i bobl a busnesau ailgylchu eu gwastraff deunydd pacio. Mae diwygio'r system gwastraff deunydd pacio yn cyd-fynd â'r uchelgeisiau hyn a'r ymrwymadau a wnaed gan bob llywodraeth genedlaethol yn y DU.

Crynodeb o'r cynnwys allweddol

Mae'r system cyfrifoldeb cynhyrchwyr deunydd pacio bresennol yn gweithredu ledled y DU. Mae a wnelo'r ymgynghoriad hwn â'r DU gyfan ac mae'n cael ei gynnal ar y cyd gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Gan nad yw Cynulliad Gogledd Iwerddon yn eistedd, mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i ymgynghori ar ran Gogledd Iwerddon oherwydd y dull hanesyddol o ymdrin â chyfrifoldeb cynhyrchwyr deunydd pacio sy'n cwmpasu'r DU gyfan.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar fesurau i leihau faint o ddeunydd pacio diangen a deunydd pacio sy'n anodd ei ailgylchu a gynhyrchir a chynyddu faint o ddeunydd pacio y gellir ei ailgylchu ac sy'n cael ei ailgylchu drwy ddiwygiadau i'r rheoliadau ynglŷn â chyfrifoldeb cynhyrchwyr deunydd pacio. Mae hefyd yn cynnig mai'r busnesau hynny sy'n defnyddio deunydd pacio ac sydd yn y sefyllfa orau i ddylanwadu ar y gwaith o'i ddylunio a ddylai dalu'r costau net llawn sy'n gysylltiedig â rheoli gwastraff deunydd pacio. Mae hyn yn gyson ag egwyddor y llygrwr sy'n talu a'r cysyniad o gyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr.

Nodir y cynigion rydym yn ymgynghori arnynt yn y ddogfen hon isod.

1. Y diffiniad o adennill costau net llawn a dulliau o adennill costau net llawn oddi wrth gynhyrchwyr
2. Cymhellion i annog cynhyrchwyr i ddylunio a defnyddio deunydd pacio y gellir ei ailgylchu
3. Y busnesau a fyddai'n rhwymedig o dan system cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig ar gyfer deunydd pacio
4. Defnyddir cyllid cynhyrchwyr i dalu awdurdodau lleol am gasglu a rheoli gwastraff deunydd pacio cartrefi a helpu i dalu am gasglu ac ailgylchu deunydd pacio tebyg i wastraff cartrefi sy'n codi yn y gwastraff masnachol
5. Labeli gorfodol ar yr holl ddeunydd pacio i ddangos p'un a ellir ei ailgylchu ai peidio
6. Targedau newydd ar gyfer ailgylchu gwastraff deunydd pacio ar gyfer 2025 a 2030, a thargedau interim ar gyfer 2021 a 2022
7. Modelau amgen ar gyfer trefnu a llywodraethu system cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig ar gyfer deunydd pacio yn y dyfodol
8. Mesurau i atgyfnerthu trefniadau monitro a gorfodi cydymffurfiaeth gan gynnwys ar gyfer gwastraff deunydd pacio i'w ailgylchu

Goblygiadau'r cynigion i randdeiliaid gwahanol

Bydd y cynigion a nodir yn y ddogfen hon yn effeithio ar y busnesau hynny sy'n cynhyrchu ac yn gwerthu deunydd pacio a chynhyrchion wedi'u pacio, awdurdodau lleol a chwmnïau rheoli gwastraff sy'n casglu ac yn rheoli gwastraff deunydd pacio, busnesau sy'n ailgylchu gwastraff deunydd pacio neu'n ei allforio er mwyn iddo gael ei ailgylchu, gweithgynhyrchwyr sy'n defnyddio deunyddiau ailgylchadwy a defnyddwyr. Mae goblygiadau allweddol y cynigion hyn i'r rhanddeiliaid allweddol hyn fel a ganlyn:

Busnesau: Ar gyfer busnesau sy'n trin deunydd pacio bydd y cynigion yn cyflymu'r broses o fabwysiadu mathau o ddeunydd pacio sy'n cael eu hailgylchu'n eang, yn golygu y caiff llai o ddefnydd ei wneud o ddeunydd pacio y gellir ei osgoi neu ddeunydd pacio diangen ac yn cynnig cymhelliad i ddatblygu a defnyddio deunydd pacio sy'n hawdd ei ailgylchu. Bydd angen ailgylchu mwy o ddeunydd pacio a

chyflawni targedau ailgylchu uwch. Bydd busnesau rhwymedig yn talu'r gost net lawn sy'n gysylltiedig â rheoli gwastraff deunydd pacio. Byddai'n well gennym symud tuag at un pwynt cydymffurfio, sy'n golygu y bydd busnesau rhwymedig yn newid, na fydd rhai busnesau sy'n rhwymedig ar hyn o bryd yn uniongyrchol rhwymedig mwyach ac y caiff busnesau eraill nad ydynt yn rhwymedig ar hyn o bryd eu cynnwys o fewn y system. Fodd bynnag, bydd pob busnes sy'n defnyddio deunydd pacio ac sy'n gwerthu cynhyrchion wedi'u pacio yn talu i mewn i'r system, os nad yn uniongyrchol fel busnes rhwymedig, yna drwy'r pris y bydd eraill yn y gadwyn gyflenwi yn ei godi arnynt. Gallai rhai busnesau rhwymedig ddewis datblygu eu systemau eu hunain ar gyfer casglu deunyddiau, yn enwedig eitemau mwy arbenigol o ddeunydd pacio, os bydd hyn yn rhatach neu'n debygol o sicrhau prosesau ailgylchu o ansawdd uwch.

Awdurdodau lleol¹: Mae'r gwaith o reoli gwastraff deunydd pacio yn costio tua £820 miliwn y flwyddyn i awdurdodau lleol. Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn golygu y caiff y cyllid sydd ei angen i dalu'r costau hyn ei drosglwyddo o lywodraeth ganolog a threthdalwyr lleol i fusnesau; bydd cynhyrchwyr yn talu awdurdodau lleol am gasglu a rheoli deunydd pacio sy'n codi yng ngwastraff cartrefi. Bydd yn rhaid i awdurdodau lleol gasglu'r holl ddeunydd pacio ailgylchadwy y nodir bod angen ei gasglu drwy wasanaethau casglu cartrefi. Bydd yn rhaid i wasanaethau casglu gyrraedd unrhyw safonau casglu gofynnol ym mhob gwlad. Bydd hyn yn sicrhau y caiff gwasanaeth mwy cyson ei ddarparu ledled y wlad.

Cwmnïau rheoli gwastraff: Bydd gan gwmnïau gwastraff yr hyder i fuddsoddi mewn gwasanaethau casglu a seilwaith ailgylchu. Bydd hyn yn seiliedig ar sicrwydd ynglŷn â thargedau ailgylchu uchelgeisiol yn y dyfodol, eglurder ynghylch y deunyddiau pacio y gellir (neu na ellir) eu hailgylchu a'r deunyddiau y mae angen eu casglu i'w hailgylchu o fusnesau a chartrefi.

Ailbroseswyr a gweithgynhyrchwyr: Gall ailbroseswyr ddisgwyl bod yn fwy hyderus y caiff deunyddiau sy'n deillio o fabwysiadu dulliau mwy cyson o gasglu deunyddiau ailgylchadwy eu cyflenwi. Gallant ddisgwyl i'r deunyddiau a gânt fod o ansawdd gwell oherwydd y newidiadau i'r ffordd y caiff deunydd pacio ei ddylunio, yn enwedig deunydd pacio plastig, a llai o ddryswch ar ran y cyhoedd o ran yr hyn y gallant, ac na allant, ei ailgylchu. Bydd hyn yn helpu i leihau risgiau sy'n gysylltiedig â chyflenwi deunyddiau. Bydd sicrhau nad yw ailbroseswyr yn y DU o dan anfantais o gymharu ag allforwyr ac y caiff yr holl ddeunydd pacio ailgylchadwy ei reoli mewn ffordd amgylcheddol gynaliadwy yn cynyddu eu hyder i arloesi a buddsoddi mewn capasiti ailbrosesu domestig. Bydd hyn, yn ei dro, yn cynyddu hyder gweithgynhyrchwyr a brandiau er mwyn iddynt allu cael gafael ar ddeunyddiau crai eilaidd o safon well.

Defnyddwyr: Bydd defnyddwyr yn glir ynghylch pa eitemau o ddeunydd pacio y gellir eu hailgylchu a'r rhai an ellir eu hailgylchu. Ar gyfer eitemau y gellir eu

¹ Mae awdurdodau lleol yn cynnwys cynghorau yng Ngogledd Iwerddon.

hailgylchu byddant yn gallu eu hailgylchu ble bynnag y maent yn byw. Ynghyd â gwasanaethau casglu mwy cyson, bydd hyn yn lleihau dryswch ac yn cyfrannu at sicrhau bod mwy o ddeunydd pacio yn cael ei ailgylchu, llai o halogiad ac, felly, ddeunyddiau o ansawdd gwell. Gofynnir i ddefnyddwyr gymryd mwy o gyfrifoldeb a gofynnir iddynt ailgylchu pethau yn wahanol. Felly bydd gwasanaethau casglu dibynadwy o ansawdd da a chyfathrebu effeithiol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt a chynnal eu cymhelliant yn bwysig.

Crynodeb o'r dadansoddiad

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn rydym yn cyhoeddi asesiad cynnar o'r effaith. Mae'n ystyried y costau a'r manteision i'r economi, yr amgylchedd a chymdeithas sy'n gysylltiedig â'r cynigion i ddiwygio'r system cyfrifoldeb cynhyrchwyr deunydd pacio. Bwriedir iddo roi asesiad cychwynnol o effaith bosibl y polisïau a gynigir. Mae'r asesiad o'r effaith yn ystyried un opsiwn rheoleiddiol a thri senario ar gyfer yr opsiwn hwnnw.

Mae senario 1 yn edrych ar y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa lle mae cynhyrchwyr yn cyflawni'r targedau ailgylchu uwch wrth ariannu'r costau net llawn sy'n gysylltiedig â rheoli gwastraff deunydd pacio cartrefi a gwastraff sy'n debyg i wastraff deunydd pacio cartrefi (drwy drosglwyddo'r gost o awdurdodau lleol a busnesau sy'n cynhyrchu'r gwastraff hwn) a defnyddio ffi/blaendal modyledig i sicrhau bod rhai deunyddiau pacio plastig yn fwy ailgylchadwy. Mae'r olaf ond wedi cynnwys asesiad o effaith lleihau deunydd pacio PVC a pholystyren o blaid deunyddiau pacio amgen sy'n hawdd eu hailgylchu am fod tystiolaeth eisoes ar gael. Senario 1 yw'r opsiwn allweddol wrth ystyried beth yw costau a manteision y diwygiadau hyn. Dros y cyfnod 2023-2032, **y Gwerth Presennol Net ar gyfer Senario 1 yw £245 miliwn**. Dros yr un cyfnod mae'n sicrhau **arbedion gwerth £77 miliwn o allyriadau nwyon tŷ gwydr a'i gost uniongyrchol net i fusnesau fydd £626 miliwn y flwyddyn**.

Mae Senarios 2 a 3 wedi'u cynnwys er mwyn ystyried yr effaith a gaiff cynllun dychwelyd blaendal (DRS) posibl ar gyfer cynwysyddion diodydd penodol ar gasgliadau wrth ymyl y ffordd, am y byddai cryn dipyn o ddeunyddiau pacio yn cael eu dargyfeirio at fannau dychwelyd y cynllun dychwelyd blaendal, a fyddai'n effeithio ar refeniw o ddeunyddiau a chostau casglu a gwaredu'r gwastraff deunydd pacio sy'n weddill. Mae hyn yn rhoi rhyw syniad o effaith y newidiadau hyn ar y costau i gynhyrchwyr sy'n gysylltiedig â deunyddiau pacio nad ydynt yn gynwysyddion diodydd a gwmpesir gan y cynllun dychwelyd blaendal. Dros y cyfnod 2023-2032, **y Gwerth Presennol Net ar gyfer Senario 2 (Cynllun Dychwelyd Blaendal 'yn cynnwys pawb') yw -£243 miliwn**. Mae'r gost net hon yn seiliedig o ddargyfeirio deunydd pacio gwerthfawr i'r Cynllun Dychwelyd Blaendal sydd bellach yn elwa ar refeniw o ddeunyddiau. **Y gost uniongyrchol net i fusnesau yw £629 miliwn y flwyddyn**.

Bydd eich ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ein helpu i ddylunio system cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig effeithiol ar gyfer deunydd pacio a rhoi'r fframwaith rheoleiddio angenrheidiol ar waith i sicrhau newid. Fel ail gam yn y broses hon bwriadwn ymgynghori ynghylch mesurau rheoleiddio penodol ar ddechrau 2020.